*This document is available in English* **_Eitem ar yr Agenda 4_**

**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**
**PWYLLGOR ARCHWILIO**

Cofnodion Cyfarfod Pwyllgor Archwilio Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a gynhaliwyd ar 28 Ionawr 2019 ym Mhencadlys y Gwasanaeth Tân ac Achub yn Llanelwy. Dechreuodd y cyfarfod am 10 o'r gloch y bore.

YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr:

| | |
|---|---|
| J R Skelland (Cadeirydd) | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| B Apsley | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| P Evans | Cyngor Sir Ddinbych |
| G Lowe | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| D Rees | Cyngor Sir Ynys Môn |
| N Smith | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| W O Thomas | Cyngor Sir y Fflint |

HEFYD YN BRESENNOL:

K Finch (Trysorydd): G Owens (Dirprwy Glerc); H MacArthur ac S Morris (Prif Swyddogion Cynorthwyol); S Forrest a G Williams (Gwasanaethau Cyfrifyddiaeth a'r Trysorlys, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy); K V Williams (Adran Archwilio, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy); D Catherall (Swyddfa Archwilio Cymru);
A Davies (Swyddog Cyswllt Aelodau).

YMDDIHEURIADAU:

Y Cynghorwyr:

| | |
|---|---|
| A I Dunbar | Cyngor Sir y Fflint |
| S Glyn | Cyngor Gwynedd |
| S Lloyd-Williams | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| G A Roberts | Cyngor Gwynedd |
| W P Shotton | Cyngor Sir y Fflint |

1 DATGAN BUDDIANNAU

1.1 Dim.

2 COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 10 MEDI 2018

2.1 Cafodd y cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Medi 2018 eu cyflwyno i'w cymeradwyo.

2.2 **PENDERFYNWYD cymeradwyo cofnodion y cyfarfod diwethaf yn gofnod cywir.**

3 MATERION YN CODI

3.1 Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

4 STRATEGAETH GYFALAF A RHEOLI'R TRYSORLYS

4.1 Fe wnaeth y Trysorydd gyflwyno'r adroddiad ac aeth Ms Forrest â'r Aelodau drwy'r adroddiad gyda chymorth cyflwyniad manwl a gan ateb cwestiynau'r Aelodau.

4.2 Roedd yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth am y modd y mae gwariant cyfalaf, ariannu cyfalaf a gweithgareddau rheoli'r trysorlys yn cyfrannu at ddarparu gwasanaeth tân ac achub. Roedd yr adroddiad hefyd yn rhoi trosolwg o'r modd y mae risg cysylltiedig yn cael ei reoli a beth yw'r goblygiadau i gynaliadwyedd ariannol yn y dyfodol. Mae'r adroddiad hefyd yn cynnwys y dangosyddion darbodus a strategaethau'r trysorlys sydd angen cael eu cymeradwyo gan yr Awdurdod Tân ac Achub.

4.3 I ateb cwestiwn gan un o'r aelodau, cadarnhaodd y PSC MacArthur fod y swyddogion yn sicrhau bod y broses o gynllunio cyfalaf yn un gadarn a bod y goblygiadau i'r refeniw yn cael eu hystyried wrth geisio gwneud unrhyw wariant cyfalaf newydd.

4.4 Cafodd yr aelodau wybod bod gan y Gwasanaeth, drwy gydweithio â sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus yng Ngogledd Cymru, ffordd well o ddefnyddio asedau. Mae arolwg cyflwr wrthi'n cael ei gynnal ar yr holl adeiladau, a bydd hwn yn cyfrannu at, ac yn blaenoriaethu, unrhyw waith adeiladau a fydd yn angenrheidiol yn y dyfodol.

4.5 **PENDERFYNWYD argymell i'r Awdurdod Tân ac Achub ei fod yn argymell pob un o bum prif elfen yr adroddiad, fel y nodir isod:**

- **(i) y Strategaeth Gyfalaf gyffredinol;**
- **(ii) Dangosyddion Darbodus;**
- **(iii) Strategaeth Rheoli'r Trysorlys ar gyfer 2019/20;**
- **(iv) Strategaeth Fuddsoddi;**
- **(v) Polisi Darpariaeth Isafswm Refeniw.**

5 STRATEGAETH ARCHWILIO MEWNOL A CHYNLLUN BLYNYDDOL 2019/20

5.1 Fe wnaeth Keith V Williams o'r Adran Archwilio Mewnol yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Conwy gyflwyno'r Strategaeth Archwilio Mewnol a Chynllun Blynyddol 2019/20. Gofynnwyd i'r aelodau ystyried a

chymeradwyo'r ddogfen i gydymffurfio â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus.

5.2 Strategaeth gyffredinol y gwaith Archwilio Mewnol yw darparu cynllun archwilio sy'n seiliedig ar risgiau, a hynny mewn ffordd broffesiynol ac annibynnol i gydymffurfio â Safonau Archwilio Mewnol yn y Sector Cyhoeddus 2013. Mae'r Strategaeth yn nodi sut bydd y Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn cynorthwyo'r Awdurdod i gyflawni ei amcanion drwy gael dull systematig a disgybledig o werthuso a gwella effeithiolrwydd y prosesau rheoli risg, rheolaeth a llywodraethu.

5.3 Yn ogystal â'r gwaith archwilio sy'n cael ei gynllunio, mae sicrwydd parhaus yn cael ei ddarparu drwy gydol y flwyddyn oherwydd y gwaith ariannol y mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn ei wneud ar gyfer yr Awdurdod.

5.4 **PENDERFYNWYD cymeradwyo'r Strategaeth Archwilio Mewnol a Chynllun Blynyddol 2019/20.**

6 ADOLYGU CYLCH GORCHWYL Y PWYLLGOR ARCHWILIO

6.1 Fe wnaeth y Dirprwy Glerc gyflwyno'r adroddiad a oedd yn rhoi cyfle i'r aelodau adolygu cylch gorchwyl y Pwyllgor Archwilio.

6.2 Fe wnaeth y Dirprwy Glerc gadarnhau bod y cylch gorchwyl yn cynnwys holl ofynion CIPFA wrth iddo gyflawni'r swyddogaethau archwilio a chraffu. Bu'r Aelodau'n trafod a ddylid cynnwys y gair 'craffu' yn enw'r Pwyllgor er mwyn cadarnhau swyddogaeth graffu'r Pwyllgor.

6.3 **PENDERFYNWYD**

**(i) argymell y cylch gorchwyl diwygiedig i'r Awdurdod i'w gynnwys yn y cyfansoddiad;**

**(ii) rhoi rhagor o ystyriaeth i'r mater o newid enw'r Pwyllgor er mwyn cadarnhau ei swyddogaeth graffu.**